**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

29 Mai 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 o dan adrannau 45C(1), (3)(c), (4)(d), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4pm ar 1 Mehefin 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn brys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid 'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 29 Mehefin 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu’r pwyllgorau perthnasol. Fodd bynnag, gan fod Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4)2020 yn cael eu trafod ar 17 Mehefin, mae'r Llywodraeth yn bwriadu amserlennu'r ddadl ar y Rheoliadau hyn ar yr un diwrnod.

Er fy mod yn sylweddoli bod hyn yn lleihau'r amser sydd ar gael i adrodd ychydig, mae'r berthynas rhwng y Rheoliadau hyn yn golygu mai eu trafod gyda'i gilydd fyddai'r dull mwyaf cydlynol. Nid yw'n bosibl aildrefnu'r ddadl ar y Rheoliadau cynharach, gan fod rhaid eu cymeradwyo erbyn 23 Mehefin. Bydd hefyd yn golygu y bydd y Senedd wedi ystyried yr holl Reoliadau diwygio cyn yr adolygiad tair wythnos nesaf, a chyn gosod unrhyw reoliadau pellach a wneir o ganlyniad i'r adolygiad hwnnw.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a’r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**